# y dinesydd

Mawrth 1996 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 216

# Rhowch yr Iaith ar Waith!

Mae Bethan Vaughan Cartwright, Swyddog y Gymraeg gyda Chyngor Dinas Caerdydd, wedi galw ar bob un ohonom ni Gymry'r ddinas i ofyn am wasanaeth Cymraeg bob tro y byddwn yn cysylltu â'r Cyngor.

Gwnaeth ei hapêl wrth annerch Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd yn eu cyfarfod yng Ngwesty'r Parc. Dywedodd fod Cyngor Sir newydd y Brifddinas wrthi'n llunio ei bolïsiau ar hyn o bryd. 'Byddai darparu gwasanaethau yn Gymraeg yn rhan o'r drafodaeth,' meddai. Awgrymodd fod yna gryn waith perswadio o hyd ar rai cynghorwyr a swyddogion ynglŷn â'r angen am ddarpariaeth Gymraeg gyflawn. 'Mae yn bwysig camu 'mlaen nawr,' meddai, 'ar sail yr hyn a wnaed eisoes gan Gyngor y Ddinas.'

Yr hwb mwyaf i'r Polisi Iaith, ar wahân i'r Ddeddf Iaith, fyddai i'r Cymry Cymraeg fynnu gwasanaeth yn Gymraeg bob amser, gan ddangos yn glir bod yna alw am hynny. Roedd yn awyddus hefyd i gael ymateb darllenwyr *Y Dinesydd* i'r math o ddarpariaeth Gymraeg ddylai fod ar gael gan Gyngor newydd y Ddinas. Ysgrifennwch at Bethan Vaughan Cartwright, Cyngor Dinas Caerdydd, 22ain Llawr, Tŷ Pearl Assurance, Heol y Brodyr Llwydion, Caerdydd CF1 3PU, neu ffoniwch (01222) 822060.



Llun: Robin Griffith

# 'Yn y Crwys y mae Croeso' - I Cynwil

Dathlu dau ddegawd. Dyna a wnaed yng Nghapel y Crwys yn ddiweddar. Trefnwyd noson gofiadwy i ddathlu ugain mlynedd o weinidogaeth y Parch. Cynwil Williams yma yng Nghaerdydd. Doedd ganddo ddim syniad y byddai dwy o'i ferched i lawr o'r Gogledd yn unswydd ar gyfer y noson ac y byddai ei gyfaill mynwesol ac Archdderwydd Cymru, y Parch. John Gwilym Jones a'i wraig yno hefyd, hwythau yn gwneud y siwrnai o Fangor i fod yn ei gwmni.

# Y Dinesydd

**Mawrth 1996, Rhif 216.**

Cyhoeddir *Y Dinesydd* gyda chymorth Cyngor y Celfyddydau a'r Swyddfa Gymreig. Fe'i hargreffir gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch bob deunydd ar gyfer rhifyn Ebrill at un o'r canlynol erbyn 11 Mawrth:**

Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253): Newyddion y Fro.

Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562): Newyddion Byd Addysg Gynradd.

Mr W. J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (Ffôn: 756282, Ffacs: 578106): Newyddion Cyffredinol.

Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540): Newyddion Chwaraeon.

Y Parchedig Gwilym E. Davies, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd (Ffôn: 626811): Newyddion o'r Eglwysi.

**Anfonwch unrhyw sylwadau ynghylch dosbarthu at:**

Mr Alun Ceri Jones, Swyddfa Surrexit, Parc Afon Bridge Road, Caerdydd CF4 2JL. Ffôn: 01222 578772.

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae hysbysebion yn hanfodol i gynnal y papur. Dylai pob un sydd am hysbysebu gysylltu â:

Miss Catrin Rowlands, 42 Carling Court, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4PH (Ffôn: 01222 598243).

## DIOLCH AM GYFRANIAD ARIANNOL

Mae ein diolch cynhesaf i Mrs Beti Wyn Jones, Cyncoed am rodd o £10 at goffrau'r *Dinesydd*. Mae ein trysorydd, Mr Aled Williams, Rhos-y-grug, 89 Pen-twyn, Radur, Caerdydd (Ffôn: 844483) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu'n llwyr ar gyfraniadau'r rhai sy'n ei ddarllen.

35 Victoria Park East
Treganna
Caerdydd

29 Ionawr 1996

Annwyl Gyfeillion

Diddorol oedd gweld y lluniau a gyhoeddwyd fel rhan o'r deyrnged i Mrs Heulwen Morgan yn rhifyn Ionawr. Rwy'n meddwl (ac mae Mam yn siwr) mai fi yw'r crwt penfelyn yn y "tei bo". Huw Griffiths, mwy na thebyg, yw'r crwt yn y crys streip. Am y gweddill, mae'r wynebau'n gyfarwydd ... ond yr enwau'n angof!

Mae'r llun yn cynnwys y rhan fwyaf o'r plant a gychwynnodd yn Ysgol Bryn-taf ym 1961/2. Mae'n rhyfedd meddwl bod y dwsin o blant yn y llun yn fwyafrif y plant 4-5 oed a oedd yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghaerdydd yr adeg honno.

Roedd Bryn-taf ar y pryd yn defnyddio'r adeiladau sydd bellach yn gartref i Ysgol Pen-cae. Trueni na ddewiswyd adfer yr enw neu ddefnyddio enw Enid Jones Davies wrth agor yr ysgol newydd. Mawr yw ein dyled iddi hi ac i wirfoddolwyr fel Mrs Morgan.

Pob lwc
Vaughan Roderick

[Diolch i Vaughan hefyd am ei gyfraniad hael o £20 i gronfa'r *Dinesydd*.]



**LLONGYFARCHION** i Mrs Nerys Snowball, sydd ar hyn o bryd yn athrawes ymgynghorol yng Ngwent, ar gael ei phenodi'n ymgynghorydd y Gymraeg i Awdurdod Addysg Cyngor Sir Caerdydd.

Mae'n amlwg bod cyfnod cyffrous, os nad tymhestlog, ar wawrio ym myd addysg Gymraeg, a da yw gwybod y bydd yma ddwylo profiadol a gweithgar wrth y llyw.

**LLONGYFARCHION** i Marged a Brian Williams, Llwynbedw, Caerdydd ar enedigaeth mab. Ganed Delwyn yn Ysbyty'r Mynydd Bychan ar 27 Ionawr. Mae'n debyg bod Geraint wedi dotio ar ei frawd bach newydd.

**LLONGYFARCHION** i Alun Thomas, Llwynbedw, Caerdydd ar ennill gradd MSc mewn Astudiaethau Cyfrifiadurol ym Mhrifysgol Morgannwg. Mae Alun yn gweithio yn Adran Cytundebau'r BBC, Llandaf.

**LLONGYFARCHION** i Richard Gwyn Jones ar gael ei benodi'n Swyddog Datblygu UNICEF yng Nghymru. O Gaerdydd y daw Richard, ac ar ôl graddio yn y Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol yma, bu'n gweithio ym myd y teledu a gwaith ieuenctid. Bydd Richard yn cydweithio â'r Urdd ar gynllun MALI 96 a'r cynllun Cerddoriaeth i UNICEF.

**LLONGYFARCHION** i Bethan ac Arwel Lloyd, Dinas Powys ar enedigaeth eu hwyres gyntaf, Eleri Nia, merch eu mab Huw a'i wraig Teresa.

**YMDDEOL** Bydd un o arloeswyr y Gymraeg yn y Brifysgol Agored yn ymddeol ar ôl chwarter canrif yn y gwaith. Yn Radur mae Heddwyn Jones yn byw, ac yn ddiweddar dyfarnwyd iddo Wobr John Robinson gan Gymdeithas Genedlaethol Addysg Oedolion am ei wasanaeth i addysg barhaol i oedolion.

**GAIR O GYDYMDEIMLAD** Yr ydym yn cydymdeimlo â Christine a Wyn James a'r teulu, Heol Kelston, Yr Eglwys Newydd yn eu profedigaeth ddiweddar. Un o Donypandy yn wreiddiol yw Christine ac yno y bu farw ei thad yn frawychus o sydyn ddechrau mis Chwefror.

LLYFRGELL RHIWBINA
PEN-Y-DRE
RHIWBINA
CAERDYDD



Tel. 693276 - Helen Price

## AMSER STORI

AR GYFER PLANT DAN 5 OED
BOB DYDD MAWRTH
2.15 - 2.45
(yn ystod tymhorau'r ysgol)




## MERCHED Y WAWR, CAERDYDD

Diwedd y gân yw'r geiniog yw hi yn hanes Merched y Wawr, Caerdydd, oedd yn apelio am ragor o aelodau'n ddiweddar. I ychwanegu at gynnwys y coffrau, maen nhw'n cynnal Bore Coffi Rhanbarthol yn Neuadd Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, Caerdydd fore Sadwrn, 30 Mawrth, i ddechrau am 10.30 a.m. Bydd yno stondinau cacennau, anrhegion a phlanhigion ac mae croeso i bawb. Codir tâl o 50 ceiniog.

## CYMRODORION CAERDYDD

Nos Wener, 2 Chwefror, fe gyfarfu'r Cymrodorion yn y Crwys a phleser oedd treulio noson yng nghwmni Mr Havard Gregory. Testun ei sgwrs oedd 'Geiriau' a thraethodd yn huawdl a disgybledig ar ddatblygiad geiriau mewn gwahanol ieithoedd a'r mwynhad maent wedi'i roddi mewn llenyddiaeth yn gyffredinol. Er hynny roeddynt yn annigonol mewn amryw amgylchiadau i gyfleu teimladau dwys. I ddiweddu rhoddodd enghreifftiau o sut y mae ein beirdd cyfoes yng Nghymru wedi dethol a defnyddio geiriau'n feistrolgar i gynhyrchu barddoniaeth aruchel. Cadeiriwyd y noson gan y Parch. Huw Ethall a diolchwyd i Havard gan y Dr Gwynfor Jones.

## LLONGYFARCHION

Llongyfarchion i Ffilmiau Apollo am ennill gwobr BAFTA am y rhaglen orau i blant, 'Noc Noc', yn ddiweddar. Pennaeth y cwmni yw D. Paul Jones, un o gyn-ddisgyblion Ysgolion Bryn-taf a Rhydfelen. Mae'n cefnogi'r *Dinesydd* ac yn hysbysebu ynddo'n rheolaidd. Ef hefyd sy'n gyfrifol am y rhaglen tynnu dŵr o ddannedd, 'Dudley'. Mae Dudley'n un arall o gyn-ddisgyblion Rhydfelen.

## YR ŴYL GORAWL

Er ein bod yn nhrymder gaeaf, mae eglwysi Cymraeg y De yn edrych ymlaen at yr Ŵyl Gorawl a gynhelir eleni yn Eglwys Gadeiriol Llandaf ar 17 Mehefin. Dyma un o'r ychydig ddigwyddiadau Cymraeg yn y gadeirlan a disgwylir i gynulleidfa dda ddod yno i gefnogi'r bywyd Cymraeg, yn enwedig o gofio i William Morgan fod yn gwasanaethu yno ar un adeg. Yn ôl yr hanes, doedd ganddo fawr ddim i'w ddweud am Gaerdydd!

## CLWB GWAWR RADUR A'R CYFFINIAU

Mae criw o ferched Radur wrthi yn sefydlu Clwb Cymraeg newydd sbon ar gyfer menywod ifanc yr ardal. Mae rhaglen o nosweithiau yn cael ei threfnu eisoes, ond mae croeso i unrhyw un sydd â syniadau neu awydd ymuno â Chlwb Gwawr cyntaf y brifddinas gysylltu â Nia Gough (Radur 843812), Ceri Davies (Radur 842315) neu Bethan Vaughan Cartwright (Radur 843422).

## NEWYDDION O'R BWRDD

Croeso i aelod newydd o staff Bwrdd yr Iaith Gymraeg sydd wedi dechrau ar ei gwaith yn ystod yr wythnosau diwethaf. Merch o Frynsiencyn yn wreiddiol yw Kate Carter, a chyn ymuno â staff y Bwrdd bu'n gweithio am gyfnod yn Ysbyty'r Eglwys Newydd. Er mai'r Gyfraith oedd ei phwnc cyntaf, mae wedi ennill cymhwyster mewn gwaith personél, a hi nawr fydd yn gofalu am les y bobol sy'n gofalu am les yr iaith. Mae'n byw yn ardal Cathays yn y ddinas.

Mae Bwrdd yr Iaith hefyd wedi cyrraedd byd y Rhyngrwyd. Mae wedi ymuno â'r system 'E-mail', ac mae rhif y Bwrdd a thudalen gyfan o fanylion amdano ar gael erbyn hyn ar hyd a lled y byd. Os hoffech chi gael rhagor o fanylion am hyn, ffoniwch Colin Jones ar rif y Bwrdd, Caerdydd 224744. Mae'r atebion i gyd gan Colin!

## COFION CYNNES

Mae'n ddrwg gan lu o gyfeillion glywed nad yw Mrs Bertha Parry, Cartref, Lake Road East yn rhy dda y dyddiau hyn. Symudodd Mrs Parry i Gaerdydd o Lanafan ger Aberystwyth dros flwyddyn yn ôl i fod yn agos i'w merch, Anne Wyn Jones, sy'n byw yn Llys-faen. Bydd pawb sy'n ei hadnabod am anfon eu dymuniadau da i Mrs Parry.

## PENARTH A'R CYLCH

Mae dwy ysgol feithrin ym Mhenarth erbyn hyn. Bydd yr hynaf o'r ddwy'n cyfarfod yn Festri Capel Bethel, Heol Plassey bob bore o'r wythnos rhwng 9.15 a 11.45. Mae yno 24 o blant ar hyn o bryd, o dan arweiniad Mrs Jan Morgan, a gellir cysylltu â hi ar y rhif 702781. Neuadd snwcer oedd yma gynt, ond mae'n braf clywed afiaith a llond gwlad o groeso Cymraeg erbyn hyn. Yn y rhifyn nesaf hwyrach y cawn glywed am y dosbarth sy'n cwrdd yn Neuadd Glyndŵr.

## TESTUN DIOLCH

Dymuna Beti Wyn Jones, Stephen, Eryl a'r plant ddatgan eu diolch diffuant i bawb a fu mor garedig, mewn gair a gweithred, pan fu'n rhaid iddyn nhw ffarwelio â Richard, y gŵr, tad a'r taid anwylaf, ar ddechrau'r flwyddyn. Bydd cofio am ofal a chariad cyfeillion yn gysur mawr yn y dyddiau blin a ddaw.

## CYMDEITHAS GYMRAEG DINAS POWYS


Mr Vernon Llywelyn o Benarth fu'n difyrru aelodau o Gymdeithas Gymraeg Dinas Powys yn eu cyfarfod mis Chwefror. Bu'n sôn am hanes yr Iddewon drwy gyfrwng ffenestri lliw, a chafwyd noson ddiddorol iawn yn ei gwmni. Bydd y Gymdeithas yn cyfarfod ar y nos Lun cyntaf o bob mis.

# Dechrau'r Daith - Alan Greedy

Ar ôl ymddeol o Uned Ymweliadau y Swyddfa Gymreig a gwerthu fy slwp *Madog*, prynais slwp arall - *Wyvern* - o Goleg y Llynges yn Dartmouth. Ond fedrwn i ddim hwylio gyda draig wen! Felly, newidiais yr enw i *Hiraeth*.

Dechreuwyd trefnu'r daith o gwmpas y byd yn fy llong fy hun. Penderfynodd fy ngwraig Elinor ddod gyda mi i Ogledd Sbaen, ond byddai'n rhaid iddi ddychwelyd i'w swydd yn Ysgol Brynhafren yn y Barri. Manteisiwyd ar y cyfle i ddod yn gyfarwydd â'r offer ac ati, ac â'r ffaith y byddwn ar fy mhen fy hun. Doedd unigrwydd ddim yn debygol o fy mhoeni, ond gallai llongau mawrion, morfilod, methu deffro a minnau'n agos i'r lan, stormydd a gofalu rhag syrthio i'r môr i gyd fod yn broblemau a fyddai'n fy wynebu.

Hedfanodd Elinor yn ôl o La Corunna a dechreuais innau hwylio ar hyd arfordir Galicia gan fentro i mewn i ambell "ria", rhyw fath o loch neu fiord yn ymestyn ymhell i mewn i'r tir. Dysgais mewn tref o'r enw "Cee" am fudiad a fynnai ymreolaeth i Galicia. Roeddwn wedi credu mai iaith Geltaidd oedd iaith Galicia, ond dysgais yno mai tafodiaith o Bortiwgaeg yw hi, er mai gair Celtaidd yw Galicia. Yn Corrubedo, daeth cwch hwylio i angori gerllaw i mi, a phan welodd y capten ifanc y Ddraig fach ar gefn *Hiraeth*, cododd un enfawr ar ei gwch ei hun. A dyna sut deuthum i adnabod Lloyd James, cyn-ffermwr o Sir Benfro ar ei ffordd i Lisbon i gwrdd â'i gariad.



Cawsom goffi y bore hwnnw yng nghaffe Jose Reino a'i gyfeillion, yr hen bysgotwyr a arferai weithio'r môr peryglus oddi ar arfordir Newfoundland. Mae'n druenus gweld yr hen weithwyr balch hyn yn cael eu taflu ar y clwt gan dechnegol fodern yr oes.

Hwyliodd Lloyd a minnau gyda'n gilydd i Rio Arosa a Pontevedra ac Ynysoedd Cies, ac yna i Bayona, y dref gyntaf i glywed y newyddion fod Columbus wedi glanio yn America ym 1493. Ar y traeth yno, dechreuais siarad â dyn a merch ifanc, ond yn sydyn dyma'r dyn yn tynnu cyllell a'i dal yn erbyn fy stumog a mynnu i mi roi arian iddo. Roeddwn wedi bod yn y siop gerllaw yn prynu tatws, a lluchiais y sach datws i'w wyneb. Rhedodd y ddau i ffwrdd dan chwerthin!

Yna ar hyd yr arfordir i Oporto, ail ddinas Portiwgal, ac ymlaen i Cascais ar aber Afon Tagus. Yno cododd storm sydyn o'r de a thorrodd cadwyn yr angor tua chanol nos. Taflwyd *Hiraeth* tua'r clogwyn, ond llwyddais i osgoi'r creigiau a moduro i ddannedd y tonnau i ddiogelwch doc bychan yn Lisbon. Wrth ddeifio i geisio dod o hyd i'r angor rai dyddiau'n ddiweddarach, daeth hen chwarelwr o Flaenau Ffestiniog a'i wraig i'm helpu. Roedden nhw wedi ymfudo i dde-ddwyrain Sbaen ac ar eu gwyliau yn Cascais am wythnos. Cewch ragor o'r hanes maes o law.

## Y CYLCH LLYFRYDDOL

Dr. Dewi Eirug Davies oedd gwestai'r Cylch ar 17 Tachwedd, a'i destun oedd "Llenyddiaeth y Traddodiad Heddwch yng Nghymru". Ffurfiwyd Y Gymdeithas Heddwch yn 1915, ac am dair blynedd yn ystod y rhyfel byd cynta, pan oedd mwyafrif pobl Cymru'n cefnogi'r ymladd, cyhoeddodd y Gymdeithas - dan ysgogaeth a golygyddiaeth Thomas Rees o Fangor - fisolyn yn cyfleu ymdeimladau'r rhai a oedd yn erbyn y rhyfel. Etifedd i'r misolyn hwnnw oedd y Pamffledi a gyhoeddwyd yn ystod yr ail ryfel byd, a soniodd Dewi Eirug am gynnwys y rhain ac am y bobl fu'n cyfrannu iddyn nhw, a'r rhai a gefnogai'r Mudiad Heddwch yn nes ymlaen drwy sgrifennu i gylchgronau fel *Y Tyst* a'r *Faner* a thrwy gyhoeddi cyfrolau yn mynegi eu teimliadau cryf yn erbyn arfogi ac ymladd.

Dr. Brinley Jones fu'n annerch yng nghyfarfod 17 Ionawr ar y testun "Cyhoeddi yn y Gymraeg 1546-1996". Anodd dirnad pwysigrwydd darganfod a datblygu argraffu a'r syched am wybodaeth a fu yn sgil hynny, meddai'r siaradwr, a soniodd am argraffu llyfrau cynnar yn y Gymraeg yn Llundain, Rhydychen a Chaergrawnt, ac am waith mawr pobl fel Stephen Hughes a'r rhai a fyddai'n dosbarthu llyfrau printiedig; am y gwahardd a fu ar y Catholigion rhag cyhoeddi dim yn Lloegr a Chymru - a achosodd i Morys Clynnog, Gruffydd Robert ac eraill gyhoeddi'u gwaith ar y Cyfandir. Cyfeiriodd hefyd at bwysigrwydd Gwasg Prifysgol Cymru, gwasg y bu yntau'n Gyfarwyddwr arni am sbel cyn symud i Lanymddyfri yn Warden ar y Coleg yno; am waith mawr unigolion fel Walter Spurrell, Thomas Gee a Thomas Johnes, Yr Hafod, ac am gyfraniad clodwiw'r gweisg sy'n dal i argraffu a chyhoeddi'r cyfrolau Cymraeg o bob math sydd ar gael erbyn heddiw.

Ar ôl yr edrych yn ôl ym mis Ionawr, testun Ned Thomas, Cyfarwyddwr presennol Gwasg Prifysgol Cymru, ar 16 Chwefror oedd "Cyhoeddi Heddiw ac Yfory". Soniodd am y camau mawr a wnaed ym myd cynhyrchu llyfrau erbyn heddiw, am gyfleustra'r prosesydd geiriau a pheiriannau tebyg a'u heffaith ar waith gwahanol arbenigwyr yn y maes - yr awdur, golygydd y sgript, y cysodwr, a'r cyhoeddwyr a fyddai'n gyfrifol am gadw safon. Cwestiwn da yw, a oes gormod o bwys yn cael ei roi ar "gadw safon"? A oes perygl mewn anelu at gynhyrchu "RR" pan fyddai "Mini" yn gwneud y tro? O gofio am y peiriannau soffistigedig sydd ar gael bellach, a pha mor hawdd yw cadw cynnwys llyfr ar ddisg, tybed a fydd hi'n bosibl, rywbryd yn y dyfodol, atgynhyrchu un copi o lyfr a aeth allan o brint ar gyfer unigolyn fydd yn gofyn amdano? Eto, tybed a welwn ni ddyn yn rhoi carden plastig yn ei beiriant ei hun a chael darllen llyfr cyfan a ddaw ar y lein o storfa ganolog i'r sgrîn o'i flaen - yn lle prynu copi neu fynd i lyfrgell i'w fenthyca? Ac o gofio pa mor anodd yw cadw llyfr gwybodaeth yn gyfamserol, beth am gael cyfrifiadur canolog a modd i gasglu gwybodaeth "newydd" ohono, megis gair Cymraeg hollol newydd a fathwyd ychydig funudau yn gynt! Rhyfedd - ac ofnadwy - yw'r posibiliadau!

**D. Gwyn Jones**

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym E. Davies

## PEIDIWCH Â THAFLU EICH HEN STAMPIAU

Pa ddefnydd fyddwch chi yn ei wneud o'r stampiau sydd ar yr amlenni y byddwch yn eu derbyn yn ddyddiol trwy'r post? Os eu taflu i'r bin yw'r ateb, dyma gyfle i chi eu casglu at bwrpas ac er budd i eraill. Mae bocs wedi ei osod yng nghyntedd capel Ebeneser, Heol Siarl, er mwyn casglu eich hen stampiau at achos da. Bydd y stampiau hyn yn cael eu hanfon i'r Ymgyrch tros Ymchwil i Gancr (Cancer Research Campaign) yng Nghaerdydd.

## ADUNIAD YN ABER

gan Eleri James,
Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg.

Am hanner awr wedi wyth un bore dydd Sadwrn gaeafol, rholiodd bymtheg o blant cysglyd yr olwg i mewn i fws mini i ddechrau ar eu taith i Aberystwyth.

Cyrhaeddon ni y coleg tua 11 o'r gloch. Dyma'r foment roedden ni i gyd wedi bod yn edrych ymlaen ati - aduniad gwersylloedd Cristnogol yr haf sy'n cael eu cynnal ym Mryn-y-groes, Y Bala, a Bryntirion, Pen-y-bont ar Ogwr. Bysys y De a'r Gogledd yn cyrraedd y maes parcio, pawb yn sgwrsio, yn siarad â'i gilydd am y tro cyntaf ers misoedd, yn dal lan ar y newyddion.

Aeth pawb i'r neuadd ar gyfer cyfarfod i ddechrau, i ganu yr emynau a chytganau roeddem wedi eu dysgu a'u mwynhau yn ystod yr haf, fel 'Abba Dad' a 'Hedd fel Afon'. Wedyn ymrannodd y cwmni yn ddau grwp. Aeth y rhai hynaf i ystafell arall i wrando ar anerchiad gan Derrick Adams. Rhoddodd ef ragflas o beth y byddai yn ei drafod yn ystod anerchiadau'r gwersyll yr haf nesaf, sef 'Sut un yw Duw'. Geraint Morse fu'n annerch y grwp iau a defnyddiodd ef nifer o wregysau Karate mewn gwahanol liwiau i gyflwyno neges yr Efengyl.

Ar ôl cinio aeth pawb i ganolfan hamdden Aberystwyth i nofio, chwarae badminton neu siarad yn y caffi a bwyta sglodion! Yn rhy fuan o lawer daeth y foment yr oeddem wedi bod yn ei hofni - amser mynd adref. Pawb yn dringo yn ôl i'r bws. Neb yn gysglyd y tro yma ond yn drist o orfod gadael ffrindiau hen a newydd, ac yn breuddwydio am wersylloedd haf 1996.


## AR DAITH I NICARAGUA

Mae'r Parch. Denzil John, Y Tabernacl, ac eraill sy'n cynrychioli Cymorth Cristnogol, yn ymweld â'r wlad hon am bythefnos ddiwedd Chwefror a dechrau Mawrth. Fe fyddan nhw'n cael golwg ar rai cynlluniau sy'n cael eu noddi gan y mudiad yno.

## CYNGOR EGLWYSI CYMRAEG CAERDYDD

Cynhaliwyd cyfarfod yn Eglwys Minny Street ar nos Iau, 8 Chwefror. Thema'r noson oedd CYRSIAU HYFFORDDI I LEYGWYR ac arweiniwyd trafodaeth yng nghwmni'r Parchedigion Ieuan Davies, Dafydd H. Owen a'r Prifathro Hugh Matthews, Coleg y Bedyddwyr.

## COFIO PEDWAR O FERTHYRON




Daeth yr hanesydd Dr. John Gwynfor Jones i gyfarfod o'r Froderfa yn Eglwys y Crwys yn ddiweddar i sôn am bedwar o ferthyron sy'n gysylltiedig â'r Brifddinas - tri ohonynt yn ferthyron crefyddol.

Y Tadau Philip Evans a John Lloyd oedd dau ohonynt a'r pysgotwr Rawlins White oedd y llall. Pe baem ni'n cerdded i'r capel heddiw heibio i Fanc y Nat West ar waelod Heol y Crwys, hwyrach y gwelem gofeb i'r ddau ferthyr Pabyddol ar fur y Banc hwnnw. Mae ffenestr liw i gofio amdanynt yn Eglwys Sant Pedr heb fod ymhell o waelod Heol Richmond, ac mae ysgol yn Llanedeyrn heddiw yn dwyn yr enw 'St. Philip Evans R.C. Primary School.' Ceir cofeb i Rawlins White yn siop Howells lle roedd capel Bethany (B) gynt, sydd bellach yn Heol Llanishen Fach, Rhiwbina.

## EGLWYS MINNY STREET

Pen-blwydd hapus i Kitty Williams yn 92 oed a Myfanwy Griffiths yn 91 oed. Pob dymuniad da i'r ddwy.

Cydymdeimlir ag Olwen George yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod Bob.

## LLWYFAN I'R IFANC

Daeth cynulleidfa dda ynghyd ar nos Wener, 9 Chwefror, i wrando ar bobl ifainc Eglwys y Crwys, Heol Richmond yn cynnal cyngerdd arbennig i godi arian at Apêl Ysbytai Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Bu trefnydd y noson Mrs Nest Owen yn brysur yn perswadio offerynwyr, adroddwyr a chantorion ifanc i roi o'u hamser i helpu'r ymgyrch i wella'r adnoddau yn ysbytai Shillong, Jowal a Durtlang yng ngogledd-ddwyrain India (hen faes cenhadol yr Hen Gorff). Cafwyd cyngerdd ardderchog a chodwyd swm anrhydeddus at yr apêl.

## TLODI YN DOMINICA

Fel yn Nicaragua mae 'na dlodi mawr yng Ngweriniaeth Dominica ym Môr y Caribi. A dyna fwrdwn sgwrs Judith Humphreys o Gymorth Cristnogol i Gymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd yn ddiweddar. Rhoddodd ddisgrifiad clir iawn drwy gyfrwng sain a llun o annhegwch y sefyllfa yno ac ymdrech yr eglwysi i gynorthwyo'r tlodion a'r anghenus.

## CAPEL BETHEL

Ar y Sul cyntaf yn y mis cynhelir gwasanaeth gan blant a phobl ifainc yr eglwys, ac ym mis Chwefror thema'r gwasanaeth oedd Dewrder. Cymerwyd rhan gan Nia Gibbons, Anna Carling, Bethan Thomas, Richard a Ffion Burgess, Eleri a Sarah Hawkley, a Mali Lewis. Ar y trydydd Sul o bob mis bydd gwasanaeth arbennig i'r teulu, pan weinyddir y cymun, ac mae croeso cynnes i bawb.

# EIN HYSGOLION CYNRADD CYMRAEG

**Yn rhifyn Chwefror o'r *Dinesydd* dechreuodd Mr B. D. Harries roi manylion am ysgolion Cymraeg dalgylch *Y Dinesydd*. Gydag ad-drefnu'r siroedd, fe ddaw un ysgol newydd sbon i'r cylch hwnnw, sef:**

## YSGOL GYNRADD Y CREIGIAU

Enw'r prifathro yw Mr Peter Evans a gellwch gael pob gwybodaeth am yr ysgol hon ganddo ef ar 891045. Rhoddir addysg yn yr ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn unol â dymuniadau'r rhieni. Yr un statws sydd i'r ddwy iaith.

Ar hyn o bryd mae 109 o blant yn yr adran Gymraeg a 234 yn yr adran Saesneg. Mae dosbarth meithrin hefyd yn yr ysgol gyda'r plant yn dod yno'n rhan amser, hynny yw am sesiwn fore neu brynhawn bob yn ail wythnos. Cynigir uchafswm o dri deg chwe lle, deunaw trwy gyfrwng y Gymraeg a deunaw trwy gyfrwng y Saesneg.

Dalgylch yr adran Gymraeg yw pentrefi Creigiau, Pen-tyrch a Chapel Llanilltern. Trefnir bws gan y sir i'r plant sy'n byw ym Mhen-tyrch a Chapel Llanilltern.



Ysgol Gynradd y Creigiau *Llun: Robin Griffith*

## YSGOL GYMRAEG BRO EIRWG

**Pan oedd ymgyrch ar droed i sefydlu Ysgol Bro Eirwg ddechrau'r wythdegau roedd llawer o'r farn ei bod mewn rhan rhy anghyfleus o'r ddinas ac na fyddai hi byth yn boblogaidd gan rieni. Ond dydy hyn ddim wedi digwydd.**

Sefydlwyd yr ysgol ym 1983 yn y rhodfa lle saif Coleg Glan Hafren erbyn hyn. Ym 1985 fe symudodd i'w safle presennol yng nghanol llawer i dir glas eang a golygfeydd hyfryd. Mae yno ddigonedd o le i'r plant chwarae ac mae'r adeilad ei hun yn helaeth. Mae wedi cynyddu tipyn gyda'r blynyddoedd ac mae ynddi 420 o blant ar hyn o bryd gan gynnwys 40 o blant yn yr Adran Feithrin.Y dalgylch yw Gabalfa, Llaneirwg, Llanrhymni, Pen-twyn, Pen-y-lan, Y Rhath, Y Sblot a Thredelerch. Yn naturiol, fe ddaw'r rhan fwyaf o'r disgyblion i'r ysgol mewn bysys.

Fe fu hanes y prifathro newydd yn *Y Dinesydd* yn ddiweddar.

## YSGOL GYMRAEG ST BARUC

**Mae 252 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol hon. Yn ychwanegol ceir ugain o blant mewn dosbarth meithrin.**

Bu cryn newid yn addysg gynradd Gymraeg y Barri ym Medi 1995. Unwyd Ysgol Gymraeg Sant Ffransis (babanod) ac Ysgol Gymraeg Sant Baruc (iau) yn un ysgol gynradd ar safle Ysgol Sant Baruc yn St. Paul's Avenue.

Ar hyn o bryd mae'r dosbarth derbyn a'r uned feithrin wedi symud i ran o'r adeilad sydd wedi'i hadnewyddu ar eu cyfer. Bydd plant blynyddoedd 1 a 2 yn trosglwyddo o hen adeilad Sant Ffransis ym Medi 1996. Erbyn hynny bydd pawb dan yr un to gan greu ysgol gynradd un ffrwd. Gan nad oes dalgylch penodedig yn y Barri daw'r plant o bob cwr o'r dref ei hun ac o ardaloedd Gwenfô a'r Rhws, nifer fawr o gartrefi di-Gymraeg. Mr Dulyn Griffiths yw'r prifathro.


# GAIR BYR O'R GAIMAN

**Gwilym Roberts**

Cyfarchion cynnes yng ngwir ystyr y gair gan ei bod yn haf ym Mhatagonia erbyn hyn a'r tywydd ar brydiau'n chwilboeth. Ond man a man dechrau gyda'r Teulu Brenhinol!

## Croeso Diana!

Bu tipyn o gyffro yn y Gaiman ddiwedd Tachwedd pan ddaeth y Dywysoges Diana ar ymweliad. Roedd y wasg yma fel gwaedgwn ar hyd yr wythnos yn arwain at yr ymweliad, yn holi barn pawb ac yn tynnu lluniau. Glaniodd hithau mewn hofrennydd ar faes pêl-droed y dre ar ôl bod yn gwylio morfilod ym mae Porth Madryn. Cafodd groeso gan y maer a'r cynghorwyr, y côr lleol a phlant yr ysgol feithrin Gymraeg. Bu hefyd yn Nhŷ Te Caerdydd yn profi te Cymreig. Sbaenwr ydy perchennog y lle, er mai fi sy'n eich cyfarch yn y llun!




Yn sgil y cyhoeddusrwydd, ymddangosodd erthygl am Batagonia mewn papur yn Pretoria, De Affrica, ac o ganlyniad cefais lythyr oddi yno gan ferch a fu'n ddisgybl i mi yn Ysgol Gynradd Trelái, Caerdydd dros ddeng mlynedd ar hugain yn ôl! Roedd hi wedi darllen am yr athro Cymraeg o Gaerdydd a oedd yn dysgu'r iaith ym Mhatagonia, a meddyliodd tybed ai'r un Mr Roberts oedd hwn â'r un fu'n ceisio dysgu Cymraeg iddi hi pan oedd hi'n hogen fach! Rown i'n cofio'r ferch am ei bod yn hynod o dlws ac yn digwydd bod mewn dosbarth a oedd yn dda yn y Gymraeg. Roedd hi'n gallu cofio enwau rhai o'i chyd-ddisgyblion, hyd yn oed.

Treuliais ddydd Nadolig mewn asado gyda chlamp o winwydden â chlystyrau o rawnwin yn hongian uwch ein pennau. Rhostiwyd oen cyfan ar gyfer yr achlysur, a chawsom ei fwyta gyda salad tomato a bara gyda digon o win i helpu'r cyfan i lawr. Cinio Nadolig gwahanol iawn i'r arfer i mi.

## Calendr y Dinesydd

**8 Mawrth**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Swper Gŵyl Ddewi yn festri Bethel, Heol Pen-llin, Yr Eglwys Newydd am 7.30. Gŵr gwadd: Emyr Currie Jones.

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd: Cawl a Chân, gyda Mynediad am Ddim, Heather Jones, The Melin Griffettes a gwestai arbennig, am 8.00. Tocynnau (£5) o'r ysgol (01222-691247).

**9 Mawrth**
Adran Addysg Barhaol Prifysgol Cymru, Caerdydd: Ysgol Undydd ar Ddyfodol y Nofel Gymraeg yn 38 Park Place o 10.00 hyd 5.30. Siaradwyr: Bethan M. Hughes, W. J. Jones a Robert Rhys. Manylion pellach: Dr Gwen Awbery (01222-874832).

**15 Mawrth**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Noson yr Awduron' dan ofal D. Gwyn Jones yn festri Capel y Crwys, Heol Richmond am 7.00. Yr awduron fydd yn trafod eu gwaith yw Nan Griffiths, Gwyneth Lewis a Kathleen Wood.

**19 Mawrth**
Cymrodorion Caerdydd: Ymweliad â Chymrodorion y Barri. Manylion gan yr Ysgrifennydd (01222-625785).

**21 Mawrth**
Cwlwm Busnes Caerdydd: Cinio Blynyddol yn De Courcey's, Pentyrch am 7.30. Gŵr gwadd: John Elfed Jones.

**22 Mawrth**
Cwmni Dalier Sylw yn perfformio 'Croeso Nôl' gan Tony Marchant (cyf. John Owen) yn The Point, Sgwâr Mount Stuart am 8.00. Tocynnau: 01222-464758.

**24 Ebrill**
Cwlwm Busnes Caerdydd: Cinio Anffurfiol am 12.30 yn Churchills, Llandaf.

**25-26 Ebrill**
Adran Addysg Barhaol ac Ysgol Hanes ac Archaeoleg Prifysgol Cymru, Caerdydd: Ysgol Ddeuddydd ar Gymru a Byd Addysg yn Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum. Manylion pellach gan y Cynullydd, Dr J. Gwynfor Jones (01222-874000), neu'r Adran Addysg Barhaol (01222-874832).

**11 Mai**
Cymrodorion Caerdydd: Y Wibdaith Flynyddol. Manylion gan yr Ysgrifennydd (01222-625785).

*Os ydych am gynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at:*

*E. Wyn James,*
*16 Kelston Rd.,*
*Yr Eglwys Newydd,*
*Caerdydd CF4 2AJ.*

# NEWYDDION YR URDD

## GRANT I'R GANOLFAN

Yn ddiweddar derbyniodd Canolfan yr Urdd, Caerdydd grant o £12000 oddi wrth 'Gynllun Grantiau'r Gymuned' Dinas Caerdydd. Defnyddir y grant i ddarparu toiledau newydd i'r Ganolfan gan gynnwys tŷ bach i'r anabl a chawod. Mae'r gwaith ar ei ganol ar hyn o bryd a bydd y toiledau newydd yn barod erbyn diwedd mis Mawrth, felly os byddwch yn galw yn y Ganolfan o Ebrill ymlaen cofiwch eu profi!




Y CYNGERDD AGORIADOL ?

## CWIS A DISGO

Mae'r Ganolfan wedi trefnu noson cwis a disgo yng nghlwb y BBC, nos Iau, 7 Mawrth. Bydd y cwis, dan ofal Ieuan Rhys, yn dechrau tua 7.30 a bydd disgo wedyn. Croeso i bawb (timau 4-6 person). Bar hwyr tan ganol nos.

## EISTEDDFODAU SIR CYNRADD AC UWCHRADD

Cynhelir Eisteddfod Sir Cynradd yr Urdd, De Morgannwg ddydd Sadwrn, 23 Mawrth, yn Neuadd Goffa'r Barri. Bydd yr eisteddfod yn dechrau am naw o'r gloch y bore a bydd cyfle i brynu llyfrau plant dan ofal 'Siop y Felin', Yr Eglwys Newydd. Croeso i bawb. Mynediad £2.

Cynhelir Eisteddfod Sir Uwchradd yr Urdd brynhawn dydd Iau, 21 Mawrth, yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf (Uchaf). Bydd yr eisteddfod yn dechrau am 1.30 p.m. Croeso i bawb unwaith eto.

Hoffai'r Urdd yn Ne Morgannwg ddiolch yn fawr iawn i Gwmni Teledu Fflic a Chwmni Teledu Matinee am eu cyfraniadau hael tuag at noddi Eisteddfodau Sir yr Urdd eleni.

# YSGOL GLANTAF

## LLWYDDIANT AR Y MAES

Yn ddiweddar dewiswyd tîm rygbi Ysgol Glantaf gan y *Western Mail* fel tîm iau y mis. Roedd hyn yn dilyn eu llwyddiant mewn pum gêm yn olynol. Curwyd Coleg Crist, Aberhonddu, 20-12 a 7-3 oedd y sgôr mewn gêm yn Llanbedr Pont Steffan.

Daeth y llwyddiant mwyaf i'r tîm wrth iddynt chwarae yn erbyn tîm Coleg Sant Stithian, tîm ysgol o Dde'r Affrig. Y sgôr terfynol oedd 24-17. Daeth llwyddiant hefyd i'w rhan yn erbyn ysgolion Llanhari a Bryn-teg.

Mae 20 bachgen wedi cynrychioli Ysgolion De Morgannwg o dan 17 ac o dan 18 y tymor hwn. Mae'r hyfforddwr, Mr Peter Manning, wedi sicrhau gwrthwynebwyr cryf i'r tîm wrth i'r ysgol chwarae yn erbyn rhai o ysgolion gorau Lloegr.

Roedd Owen Jones a Cai Britten ar y fainc yn y gêm yn erbyn yr Alban yn ddiweddar.

## MYNEDIAD I RYDYCHEN A CHAERGRAWNT

Llongyfarchiadau i Owain Sivell-Jones ar ennill lle yng Ngholeg St. Hugh, Rhydychen i astudio'r Saesneg, ac i Hywel Dafydd ar lwyddo i gael mynediad i Gaergrawnt i astudio meddygaeth yng Ngholeg Downing.


**CYNLLUNIAU CHWARAE HAF**

**Caerdydd a'r Fro**

Os hoffech gael gwaith yn ystod yr haf yn "Hwyl Ha" Caerdydd a'r Fro yn chwarae a gweithio'n galed yng Nghynlluniau RHAG mewn un o 5 canolfan

- Bro Eirwg
- Glantaf
- Trelái
- Y Barri
- Penarth

Cysylltwch ag Ethni Jones (01446) 760383
Cynhelir cyfweliadau cyn y Pasg

# Dysgwyr y Ddinas

dan ofal Gill Stephen

Mae sawl peth newydd a diddorol ar y gweill i chi "Ddysgwyr y Ddinas" ar hyn o bryd. Edrychwch ar y Dyddiadur o Ddigwyddiadau a gwelwch chi fod rhywbeth yna at ddant pawb y mis hwn.

Mae gyda ni Ysgolion Undydd gyda dosbarthiadau ar gyfer pob safon, mae Clwb Cinio a Chlwb Siarad newydd yng Nghanolfan yr Urdd.

Mae cymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg yn bwysig iawn os ydych chi am siarad yn rhugl. Felly, dewch i'r digwyddiadau, cewch gyfle i ymarfer eich 'mân siarad' Cymraeg ac yn fwy pwysig fyth cewch chi hwyl! **Cofiwch, os ydych chi am lwyddo peidiwch byth â siarad Saesneg â rhywun sydd yn gallu siarad Cymraeg.**

**GEIRFA**

ar y gweill - *on the way*
mân siarad - *small talk*
rhywbeth at ddant pawb - *something to everyone's taste*
cymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg - *socialising in Welsh*
yn fwy pwysig fyth - *even more importantly*
os ydych chi am lwyddo - *if you wish to succeed*

## BLE YCH CHI'N BYW?

Ydych chi'n dysgu Cymraeg ond ddim yn gallu siarad yn rhugl eto? *(Learning but not fluent yet?)*

Mae dal modd i chi ddefnyddio'ch cyfeiriad yn Gymraeg. *(You could start by always using your address in Welsh.)*

Roath - Y Rhath
Cathays - Y Waun Ddyfal
Rumney - Tredelerch
Birchgrove - Llwynbedw
Heath - Y Mynydd Bychan
Fairwater - Tyllgoed
Splott - Y Sblot
Canton - Treganna

ac wrth gwrs,
CAERDYDD.

## CAFFI 1282, HEOL ALBANY gan Chris Rolant (Dosbarth Safon A, Coleg Glan Hafren)

Mae caffi Cymraeg newydd agor yn Heol Albany yn y Rhath. Enwyd y caffi er anrhydedd i Llywelyn ac mae blas Cymraeg ar y caffi - gan gynnwys bwydlenni dwyieithog a staff sy'n siarad Cymraeg. Y rheolwr ydy Huw Stallard; mae wedi symud i Gaerdydd o Lanelli, ond mae e'n dod o Fangor yn wreiddiol. Mae e'n dweud fod y caffi yn boblogaidd iawn gyda phobl sy'n siarad Cymraeg. Mae dewis da o brydau a snaciau ar gael yn y caffi - gan gynnwys prydau arbennig ar gyfer llysieuwyr.

## DYDDIADUR O DDIGWYDDIADAU - DE MORGANNWG A'R FRO

| | |
|---|---|
| **Mawrth 9fed**<br>9.45 - 1.15 | Ysgol Undydd Canolfan Palmerstone<br>(Meithrinfa ar gael)<br>Ffoniwch Chris Franks (01222 513046) |
| **Mawrth 16eg**<br>9.30 - 1.00 | Ysgol Undydd Canolfan Albert, Penarth<br>Ffoniwch Chris Franks (01222 513046) |
| **Mawrth 30ain**<br>9.30 - 1.00 | Ysgol Undydd Canolfan yr Urdd<br>Heol Conwy, Caerdydd (Meithrinfa ar gael)<br>Ffoniwch Chris Franks (01222 513046) |
| **Pob dydd Llun**<br>4.30 - 6.00<br>a<br>**Phob dydd Iau**<br>12.30 - 2.00 | 'Syrjeri' yng Ngholeg Glan Hafren<br>Cyfle i ddysgwyr neu diwtoriaid drafod eu problemau. Ffoniwch Andrew neu Gill (481280 est. 236)<br>(Trefnwyd gan Gonsortiwm De Morgannwg Cymraeg i Oedolion) |
| **Pob nos Iau**<br>9.15 p.m.<br>yn ystod tymor yr ysgol | Nifer o Gymry Cymraeg a dysgwyr yn cwrdd i sgwrsio'n anffurfiol yn lolfa Gwesty Parc y Rhath (Roath Park Hotel).<br>Ffoniwch Pete (763426) |
| **Pob bore Gwener**<br>9.30 - 11.30 | Clwb Coffi Canolfan yr Urdd<br>Ffoniwch Chris Franks (513046) |
| **Pob bore Gwener**<br>9.30 - 11.30 | Clwb Coffi Ysgol Victoria, Penarth<br>Ffoniwch Chris Franks (513046) |
| **Pob dydd Gwener**<br>Amser cinio | Cymry Cymraeg a dysgwyr yn cwrdd i sgwrsio'n anffurfiol yn lolfa y 'Duke of Wellington', Y Bont-faen. |
| **Pob bore Sadwrn**<br>10.45 | Cyfle arall i ymarfer eich Cymraeg dros baned o goffi yn Festri'r Tabernacl, Yr Ais (The Hayes).<br>Ffoniwch Chris Rees-Woodward (499593) |
| **Pob bore Sadwrn** | Clwb Sadwrn ACEN<br>Ffoniwch 01222 665455 am fanylion. |
| **Unwaith y mis** | Clwb Siarad Canolfan yr Urdd<br>Ffoniwch Chris Franks (513046) |

**AM FANYLION PELLACH FFONIWCH GILL STEPHEN - 481280 EST. 236**

## JÔC yn y Bocs

**- y tro hwn gan ddosbarthiadau yng Ngholeg Glan Hafren a Chanolfan yr Urdd.**

Pam aeth y draenog dros y ffordd?
*I ddangos i'w gariad fod ganddo gyts!*

Beth dych chi'n galw dyn gyda gwylan ar ei ben?
*Cliff!*

Sut dych chi'n gwybod bod eliffant wedi bod yn yr oergell?
*Olion traed yn y menyn, wrth gwrs!*

**Ydy'ch dosbarth chi yn gallu gwneud yn well? Danfonwch eich jôcs ata i nawr! Does dim gwobr o gwbl - dim ond y cyfle i fod yn enwog!**

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies




## Y BÊL HIRGRON - RHIF 10 FWYAF



**Trueni fod yn rhaid i mi drefnu tudalen y campau cyn i'r genedl wynebu'r Albanwyr; waeth imi beidio â manylu am yr hyn a ddigwyddodd yn Nhwicenham, ac yn sicr ni ellid bwrw rhagolwg ar ail ornest y Bencampwriaeth. Ond mae cyffro yn y gwynt unwaith yn rhagor, a rhaid felly sôn am rygbi rhyngwladol, rywsut neu'i gilydd - y gêm sy wedi ein cynnal, mewn ffordd, gydol y ganrif hon.**


Bu siarad am y wawr droeon yn ystod y cyfnod er 1988 pan enillwyd y Goron Driphlyg ddiwethaf, ond rwyf i yn bur hyderus inni ei gweld hi o'r diwedd - teimlo pelydrau'r haul yn cynhesu ein cymalau, a'r gwaed coch cyfan yn byrlymu trwy ein cyhyrau megis cynt. (Ffigurol, mae hi'n rhaid, gan fy mod yn edrych ar dair modfedd o eira mewn cyfnod oer iawn).

Yr oedd yn rhaid i ddyn feio'r dewis di-weledigaeth yn rhy aml o lawer am safon ddychrynllyd y timau a'n cynrychiolai yn ystod y tymhorau llwm, ond bellach mae hi wedi gwella'n fawr iawn. Roedd maswr o'r iawn ryw a mewnwr gorau'r genedl yn chwarae ynghyd yn erbyn Lloegr, yr olaf yn chwarae dros ei wlad am y tro cyntaf. Ni ddylwn grybwyll fod peth gweledigaeth gennyf i, ond buaswn yn canmol Robert Howley ers o leiaf pedair blynedd cyn iddo ennill ei le yn y tîm.

Gor-ddweud fyddai ei osod ar yr un llwyfan â Gareth Edwards, ond teg dweud mai efe yw'r nesaf at y mewnwr gorau a welwyd yn chwarae y ganrif hon. Cefais gyfle i sylwi'n fanwl iawn arno'n chwarae dros Ben-y-bont ac mae ef wedi arddangos holl fedrau'r safle - cicio, pasio, bylchu, taclo ac ar ben y rhain, gweledigaeth. Dylid gofyn, felly, pam na chafodd ei ddewis cyn hyn ac yntau'n bump ar hugain oed. A'i bartner - y crwt ifanc yr olwg, direidus, a ddwg holl ddyheadau'r genedl ar ei war; nid ydyw hwn eto wedi cael ei lawn gyfle i'n gwefreiddio ac eithrio'r fenter ar ôl deng munud yn Nhwicenham a arweiniodd at gais rhagorol. Mae Arwel Thomas yn llinach aur y rheiny sy wedi ein codi oddi ar y ddaear am enydau lawer trwy'r blynyddoedd; ni welais i na Wili Davies na Cliff Jones, ond gwyliwn yn llesmeiriol Cliff Morgan, David Watkins, Barry John, Phil Bennett - a Ken Richards, Alan Rees a Malcolm Dacey, heb anghofio Gareth Davies a Jonathan Davies. Nid yw Neil Jenkins yn eu plith, sylwer, er iddo ennill ei nawfed cap ar hugain fel maswr, gan gyrraedd record Cliff Morgan, yn erbyn Fiji yn yr hydref. Chwaraewr brwdfrydig, sy'n daclwr cadarn ac yn giciwr dihafal at y pyst, ond nid un a ddylasai chwarae dros ei wlad yn safle'r maswr. Diffyg gweledigaeth ar ran y dewiswyr yn ddïau.

Credaf hefyd fod canmoliaeth uchel yn ddyledus i'r hyfforddwr, Kevin Bowring, ac i'w gynorthwy-ydd, Alan Lewis; Dywedid gan sawl hyfforddwr o'u blaen mai gêm redeg a phasio oedd gwir gêm Cymru, ond ni welwyd unrhyw beth tebyg tan y tymor hwn. Parhaed felly, a chyda'r dewis iawn daw'r briallu wedi'r eira.

## PÊL-RWYD



**(gan Angharad Dafydd-Styles)**

**Y mae Caerdydd yn fwrlwm o weithgaredd. Y mae Swyddfa Cymdeithas Pêl-rwyd Cymru (CPC) wedi symud yn ddiweddar i 50 Heol yr Eglwys Gadeiriol (ffôn: 237048, ffacs: 226430). Cysylltwch â nhw ynglŷn â manylion cyrsiau (hyfforddi a dyfarnu) a gêmau rhyngwladol y tymor, neu unrhyw fater arall yn ymwneud â'r gêm.**

Ar nos Iau, nos Lun ac ambell waith ar nos Fercher, cynhelir cynghrair De Morgannwg - timau o bob cwr o'r ddinas a'r sir - yn Athrofa Chwaraeon Cymru, Gerddi Sophia. Gwelir yno chwaraewragedd o bob safon ac oedran. Pe baech yn dymuno ymuno â thîm - beth bynnag eich oedran a'ch profiad! - cysylltwch â CPC. Bwrw'r Sul, eto yn yr Athrofa neu yn un o ganolfannau hamdden y ddinas, y mae'r carfannau cenedlaethol yn ymarfer - o dan 16eg, o dan 18, o dan 21ain a thîm yr oedolion. Mae'n gyfnod prysur iddynt hwy gan mai yn ystod Ionawr - Mawrth y cynhelir y mwyafrif o'r gemau rhyngwladol.

Yng Nghaerdydd hefyd y mae Carfan Ragoriaeth y De Ddwyrain (o dan 19eg ac o dan 23ain) yn ymarfer unwaith y mis - braf yw gweld rhai o Gymry Cymraeg y ddinas yn y garfan hon.

Gair y tro nesaf am nwyfiant, hyfforddi a phêl-rwyd a'r Gymraeg!

**GWAITH I'W DEIPIO**

Prosesu geiriau
neu
Glywdeipio

Cymraeg/Saesneg

* Prisiau Rhesymol
* Gwasanaeth effeithlon
* Gwaith o safon

Cysylltwch â Gwen Aubrey
ar (01222) 861165 ar ôl 6pm

WJEC CBAC

# THE BOOK SHOP

# Y SIOP LYFRAU

***Oes plant oed ysgol gyda chi ?***

**- yna , dewch i ymweld â Siop Lyfrau CBAC**

- Cymorth gyda pharatoi ar gyfer arholiadau TGAU a Safon Uwch
- Llyfrau darllen ar gyfer plant o bob oed
- Llyfrau i'r dosbarth

**CBAC - Y Siop Lyfrau**
**245 Rhodfa'r Gorllewin**
**Llandaf**
**Gyferbyn ag Athrofa Addysg Bellach Caerdydd**

**01222 265000**

CYD

## Swyddog Datblygu De Ddwyrain Cymru

Gwahoddir ceisiadau gan bobl egnïol a brwdfrydig i weithio gyda dysgwyr yn Ne-ddwyrain Cymru i ddarparu cyfleoedd cymdeithasol i ddysgwyr a Chymry Cymraeg.

**Cyflog: £12,300**

Am fanylion pellach, cysylltwch â Gill Stephen, Goleg Hafren, 35 The Parade, Caerdydd, CF2 3AD. Ffôn: 01222 481280.

**Dyddiad cau - 18 Mawrth 1996**

## HYSBYSIAD CYHOEDDUS

### WELSH LANGUAGE ACT 1993

In accordance with the undertaking that Government Departments and Crown bodies will comply with the requirement of the Welsh Language Act 1993 the Employment Service in Wales has prepared a Welsh Language Scheme which it now offers for public consultation.

Comments on the Scheme are welcomed. Copies can be obtained from Jobcentres or by writing direct to:
The Welsh Language Co-ordinator
Employment Service
4th Floor, Companies House
Cardiff CF4 3UW

*Comments by 15th March 1996 would be appreciated.*

EMPLOYMENT SERVICE
Serving people through Jobcentres

### DEDDF YR IAITH GYMRAEG 1993

Yn unol ag ymrwymiad y Llywodraeth y bydd Adrannau'r Llywodraeth a Chyrff y Goron yn cydymffurfio â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 mae'r Gwasanaeth Cyflogi yng Nghymru wedi cyflwyno Cynllun Iaith Gymraeg ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

Gwahoddir sylwadau ar y Cynllun a gellir cael copiau ohono mewn Canolfannau Gwaith neu trwy ysgrifennu at:
Cyd-gysylltydd yr Iaith Gymraeg
Y Gwasanaeth Cyflogi
4ydd Llawr, Tŷ'r Cwmniau
Caerdydd CF4 3UW

*Gwerthfawrogid unrhyw sylwadau erbyn Mawrth 15 Fed, 1996.*

GWASANAETH CYFLOGI
Gwasanaethu pobl drwy ganolfannau gwaith

CYMDEITHAS GORAWL Y TABERNACL
YR AIS, CAERDYDD

yn cyflwyno

# REQUIEM - FAURE

Nos Fawrth, Mawrth 12fed, 1996

am 7.30 o'r gloch

Cynhelir y gyngerdd yn y Tabernacl

Unawdwyr: **IONA JONES a PAUL JONES**

**Organydd: HUW THOMAS**

**Arweinydd: EUROS RHYS EVANS**

Eitemau amrywiol yn ystod hanner cyntaf y Gyngerdd gan y Côr, Marc Jon, Iona Jones, Paul Jones, Nia Samuel, Parti Cyd-adrodd (Hyfforddwraig: Eirwen Davies).

**Tocynnau: £3 (oedolion); £1 (plant)**
ar gael gan aelodau'r Côr neu drwy ffonio Caerdydd 597263

**CROESO CYNNES I BAWB**

AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU
NATIONAL MUSEUMS & GALLERIES OF WALES

## CELF, DEFOD, A MAWRWOLAETH MEWN CYNHANES

AMGUEDDFA AC ORIEL
GENEDLAETHOL CAERDYDD



NATIONAL MUSEUM
& GALLERY CARDIFF

31-1-96 HYD 28-4-96
☎01-222-397951

## GWAITH I'W DEIPIO

**Prosesu geiriau**

**neu Glywdeipio**

Cymraeg / Saesneg

* Prisiau rhesymol
* Gwasanaeth effeithlon
* Gwaith o safon

Cysylltwch â Gwen Aubrey ar (01222) 861165
ar ôl 6.00 p.m.

celtic
HENDERSON CROSTHWAITE

**RHEOLWYR BUDDSODDI ANNIBYNNOL**
**Yr enw newydd ym myd Broceriaid Stoc yng Nghymru**

***Yn meddwl buddsoddi?***

***Am gyngor di-duedd dewch at yr annibynwyr!***

*Cysylltwch â Howard Bailey*

**24, Ffordd yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF1 9RW**
**ffôn (01222) 394021/6 ffacs (01222) 228452**

Mae Celtic Henderson Crosthwaite yn enw masnachol Henderson Crosthwaite Cyf. Mae Henderson Crosthwaite Cyf yn aelod o grŵp ccc Guinness Mahon Holdings, yn aelod o Awdurdod Gwarannau a Dyfodolion ac hefyd yn aelod o Gyfnewidfa Stoc Llundain

**Ar rent neu ar werth:** fflat ail-lawr yn Y Tyllgoed, Caerdydd. Golygfeydd bendigedig dros y sianel. Dwy ystafell wely a lle i gysgu pedwar. Rhent: £300 y mis neu i'w brynu am £35,000.

**Cysyllter â Chaerdydd 01222 561894.**